# *Polisi Camerâu Cerbyd*

<table>
<tr><td>Crynodeb o’r polisi:</td><td>Mae’r polisi’n cyd-fynd â chanllawiau gweithredol Heddlu Dyfed-Powys ar gyfer y defnydd o Gamerâu Cerbyd yn Heddlu Dyfed-Powys.</td></tr>
<tr><td>Rhif y polisi:</td><td>033/2021</td></tr>
<tr><td>Rheoli fersiwn:</td><td>
<table>
<tr><th>Fersiwn</th><th>Dyddiad</th><th>Awdur</th><th>Rhesymwaith</th></tr>
<tr><td>2.0</td><td>04.06.21</td><td>M Clark</td><td>Polisi wedi’i ddiweddaru i’r templed newydd.</td></tr>
<tr><td>2.2</td><td>14.06.21</td><td>M Clark</td><td>Diwygiad</td></tr>
<tr><td>2.3</td><td>22.06.21</td><td>M Clark</td><td>Diwygiad yn dilyn adborth</td></tr>
<tr><td>2.4</td><td>25.06.21</td><td>M Clark</td><td>Diwygiad yn dilyn adborth</td></tr>
<tr><td>2.5</td><td>20.07.21</td><td>M Clark</td><td>Diwygiadau yn dilyn adolygiad gan yr Adran Rheoli Gwybodaeth</td></tr>
</table>
</td></tr>
<tr><td>Dyddiad gweithredu:</td><td>20/07/2021</td></tr>
<tr><td>Dyddiad adolygu:</td><td>Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu bob dwy flynedd.<br><br>Caiff perchennog y polisi gynnal adolygiad cyn diwedd y cyfnod adolygu dwy flynedd os oes unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth y gall fod angen eu hystyried, datblygiadau mewn technoleg neu newid yn yr offer a ddefnyddir.</td></tr>
<tr><td>Perchennog/cyswllt: (cymeradwywyd gan – Bwrdd)</td><td>Kelly Wagstaff – Rheolwr Cynnyrch a Rhaglenni TGCh</td></tr>
</table>

| Ymgynghori a chymeradwyo | ***Grŵp Prosiect Camerâu Cerbyd:***<br>• ***TGCh***<br>• ***Ffederasiwn yr Heddlu***<br>• ***Unsain***<br>• ***Rheoli Gwybodaeth a Chydymffurfiaeth***<br>• ***Gweithrediadau Arbenigol***<br>• ***Plismona Gweithredol***<br>• ***Fflyd***<br>• ***CID – Arbenigwr ANPR***<br>• ***Cynrychiolydd Axon***<br>• ***Cyd-uned Arfau Saethu*** | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfieithiad Saesneg** | ***Oes*** | ✓ | ***Nac oes*** | |

# 1. Datganiad Polisi

Defnyddir camerâu cerbyd ledled Heddlu Dyfed-Powys (HDP) mewn cerbydau Plismona'r Ffyrdd ac Ymateb Arfog gan swyddogion er mwyn cefnogi erlyniadau ac amddiffyn y gymuned. Mae'r camerâu'n darparu cyfrif tryloyw a chywir o ddigwyddiadau a chysylltiadau.

Mae'r darnau ffilm yn darparu tystiolaeth weledol a chlywedol i'w defnyddio yn y llys, sy'n golygu bod troseddwyr yn fwy tebygol o bledio'n euog ac yn medru cael eu dwyn i gyfiawnder yn gynt. Bydd yn gwella'r broses o ymchwilio i gwynion yn erbyn swyddogion a staff ac yn eu gwneud yn fwy atebol i'r cyhoedd. Bydd swyddogion ond yn recordio os oes angen plismona ac mae'n gymesur gwneud hynny.

Diben y polisi hwn yw nodi a chyfeirio'r gweithdrefnau a'r protocolau sydd angen ar gyfer gweithredu a lleoli camerâu cerbyd a'r defnydd ohonynt gan swyddogion heddlu ar gyfer casglu tystiolaeth neu gudd-wybodaeth. Mae'r polisi a'r canllawiau cysylltiedig yn sefydlu'r sail gyfreithiol a'r canllawiau ar gyfer defnyddio camerâu cerbyd.

***Mae'n berthnasol ar gyfer y canlynol (ond heb fod yn gyfyngedig i hynny):*** *Holl gategorïau gweithwyr Heddlu Dyfed-Powys, pa un ai a ydynt yn staff llawn amser, rhan amser, parhaol, cyfnod penodol, dros dro (gan gynnwys staff asiantaeth, cymdeithion a chontractwyr) neu'n staff sydd ar secondiad. Rhaid i unrhyw weithiwr sy'n cael gafael ar asedau ac eiddo'r Heddlu a'u defnyddio roi ystyriaeth ddyledus i gynnwys y polisi hwn.*

# 2. Cwmpas y Polisi

Bwriedir y polisi hwn a'r canllawiau cysylltiedig i alluogi swyddogion i gydymffurfio â deddfwriaethau a chanllawiau i gipio tystiolaeth i'w defnyddio mewn gweithdrefnau llys.

Egwyddorion trosfwaol ar gyfer y defnydd gweithredol o gamerâu cerbyd:

- Mae camerâu cerbyd yn ffordd ddefnyddiol o recordio tystiolaeth a dangos tryloywder mewn perthynas â chamau gweithredu'r heddlu adeg digwyddiadau, fodd bynnag, **dylid ond defnyddio camerâu cerbyd i gadarnhau ac nid cymryd lle tystiolaeth o ffynonellau eraill megis swyddogion heddlu, SCCH neu lygad dystion.**

- Mae camera cerbyd yn system amlwg. Ni fyddai'n cael ei defnyddio, ac ni ddylai gael ei defnyddio, ar gyfer recordio cudd.

- Rhaid i'r defnydd o gamerâu cerbyd fod yn gymesur ac yn ofynnol ar gyfer y sefyllfa. Dylai'r defnydd o gamera cerbyd fod yn 'benodol ar gyfer y digwyddiad.'

- Rhaid bod defnyddwyr camerâu cerbyd bob amser yn medru cyfiawnhau'r defnydd o'r camera a rhaid bod ganddynt sail gyfreithiol a gwrthrychol ar gyfer ffilmio. Rhaid i hyn fod yn gymesur i'r digwyddiad/gweithgaredd dan sylw.

# 3. Gofynion Cyfreithiol/Polisi a Phwerau

### 3.1 Polisïau, Protocolau, Arferion neu Gytundebau Gwasanaeth Cysylltiedig

**Mewnol**:

Canllaw Gweithdrefn Gweithredu Safonol Camerâu Cerbyd

Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth – Defnydd yr Heddlu o Ffrwyno mewn Sefyllfaoedd Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu

**Polisi Delweddu Digidol**:

Polisi Canllaw / Cyngor Uned Gwyliadwriaeth Dechnegol

**Allanol**:

Gweithdrefn Ôl-ddigwyddiad

Gweithdrefn Gweithredu Safonol

Canllaw Camerâu Corff 2014 y Coleg Plismona

Datganiad Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu ar y Sefyllfa Blismona Genedlaethol: Defnyddio Camerâu Corff i Recordio Cyswllt Cychwynnol â Dioddefwyr, Tystion a Drwgdybiedigion

Canllawiau Technegol y Swyddfa Gartref ar gyfer Dyfeisiau Camera Corff

Diogelu Data Camerâu Corff y Swyddfa Gartref

Datganiad Sefyllfa Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu ar Gamerâu Corff

Canllaw i Reoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data'r DU

Canllawiau'r Comisiynydd Gwybodaeth ar gyfer y sector ffin, heddlu a chyfiawnder troseddol

Cod C PACE – Cod Ymarfer Diwygiedig ar gyfer Cadw, Trin a Chwestiynu Unigolion gan Swyddogion Heddlu

Sicrhau'r Dystiolaeth Orau mewn Gweithdrefnau Troseddol: Canllawiau ar gyfer Cyfweld â Dioddefwyr a Thystion a Chanllawiau ar gyfer Defnyddio Mesurau Arbennig y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2011).

Arferion Proffesiynol Awdurdodedig y Coleg Plismona: Plismona'r Ffyrdd; Canllawiau ar gyfer Ymlidiau'r Heddlu

Gweledigaeth Blismona 2025 Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu

Diogelu Data Camerâu Corff y Swyddfa Gartref

***Ceir deddfwriaethau sy'n cwmpasu defnydd yr heddlu o gamerâu yn y Deddfau Seneddol canlynol:***

- Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data'r DU
- Deddf Diogelu Data 2018 – mae'n cwmpasu prosesu, cadw a rheoli data personol.

Heddlu Police DYFED-POWYS

- Deddf Gweithdrefn ac Ymchwiliadau Troseddol 1996 – mae'n cwmpasu datgelu deunydd mewn achosion troseddol.
- Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 – mae'n cwmpasu hawl unigolion i gael mynediad at wybodaeth wedi'i chofnodi sy'n cael ei dal gan awdurdodau cyhoeddus.
- Deddf Hawliau Dynol 1998 – Yn benodol, Erthygl 6 Siarter Hawliau Dynol Ewrop (Hawl i dreial teg) ac Erthygl 86 Siarter Hawliau Dynol Ewrop (Hawl i barch ar gyfer bywyd preifat a theulu)
- Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 – mae'n cwmpasu gwyliadwriaeth gudd ymwthiol neu gyfeiriol.
- Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 – yn benodol, mewn perthynas ag adnabod (Cod Ch) ac A64 (Pŵer i dynnu ffotograffau heb ganiatâd)
- Deddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol1999

**Rheoliad 109**

- Gorchymyn Cerbydau Ffyrdd (Adeiladu a Defnydd) (Cerbydau Heddlu) 2019
    - Dywed rheoliad 109;
      Na fydd unrhyw un yn gyrru cerbyd modur, neu'n achosi neu'n caniatáu i gerbyd modur gael ei ddefnyddio, ar ffordd os yw'r gyrrwr mewn sefyllfa i weld, yn uniongyrchol neu drwy adlewyrchiad, cyfarpar derbyn teledu neu gyfarpar sinematograffig arall i arddangos unrhyw beth heblaw gwybodaeth

      a) Ynghylch cyflwr y cerbyd neu ei offer;
      b) Ynghylch lleoliad y cerbyd a'r heol y mae wedi'i leoli;
      c) I gynorthwyo'r gyrrwr i weld y ffordd gyferbyn â'r cerbyd; neu
      ch) Er mwyn cynorthwyo'r gyrrwr i gyrraedd pen ei daith.
- Eithriad yr Heddlu i Reoliad 109 Gorchymyn Cerbydau Ffyrdd (Adeiladu a Defnydd) 2019 – Defnyddio Sgriniau Arddangos
    - Dywed y Gorchymyn Cerbydau Arbennig na fydd swyddogion sy'n gweithio ar ben eu hunain yn medru gweld y sgrin dros 8mya neu gymwysiadau ac eiconau cyfyngu i unrhyw gyflymder dros 8mya.
- Er mwyn cydymffurfio â hyn, rhaid i'r gyrrwr sicrhau bod y cymhwysiad ANPR yn cymryd blaenoriaeth ar derfynell data symudol y cerbyd. Bydd y rhaglen Fideo Car yn rhedeg yn y cefndir.
- Ni ddylai fod modd gwylio, ac ni ddylid gwylio, darn ffilm byw pan mae'r cerbyd yn symud.

## ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

Mae Adran 4 Deddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi'r **nodweddion gwarchodedig** sydd i'w diogelu o dan y Ddeddf fel a ganlyn: Oed; Anabledd; Ailbennu Rhywedd; Priodas a Phartneriaeth Sifil; Beichiogrwydd a Mamolaeth; Hil; Crefydd neu Gred; Rhywedd; Cyfeiriadedd Rhywiol.

Mae **dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus** yn gosod gofyniad cyfreithiol rhagweithiol ar gyrff cyhoeddus i roi ystyriaeth, wrth arfer eu swyddogaethau, i'r angen i:

- ddileu camwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall sy'n anghyfreithlon dan y Ddeddf
- hybu cyfle cyfartal rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol ac unigolion nad ydynt yn ei rhannu
- hybu perthynas dda rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol ac unigolion nad ydynt yn ei rhannu.

Mae'r ddyletswydd cydraddoldeb yn berthnasol i'r holl nodweddion gwarchodedig ac eithrio Priodas a Phartneriaeth Sifil, lle dim ond yr angen am ddileu camwahaniaethu sy'n berthnasol.

Er mwyn cynnal **asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb** rhaid mynd ati'n systematig i asesu effeithiau tebygol neu wirioneddol polisi ar bobl o safbwynt yr holl nodweddion gwarchodedig a nodir uchod.

Dylid cynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer pob polisi sy'n **berthnasol** i ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus. Mae templed ar gyfer asesiad o effaith ar gydraddoldeb ar gael yma. Mae fersiwn Saesneg o'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb hefyd ar gael yma. Ceir canllawiau ar gyfer cwblhau'r templed ar dudalen fewnrwyd yr adran amrywiaeth.

| **Cwblhawyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb** | |
|---|---|
| **Enw:** | Matthew Clark |
| **Adran:** | Newid Busnes TGCh |
| **Llofnod:** | M.D.Clark |
| **Dyddiad:** | 24 Mehefin 2021 |

**DEDDF HAWLIAU DYNOL**

**TYSTYSGRIF CYDYMFFURFIAETH**

Cafodd y polisi hwn ei ddrafftio yn unol â’r Ddeddf Hawliau Dynol a’i adolygu ar sail ei gynnwys a’r dystiolaeth ategol, ac ystyrir ei fod yn cydymffurfio â’r Ddeddf honno a’r egwyddorion sy’n sail iddi.

| | |
|---|---|
| **Enw:** | R Jones |
| **Adran:** | Gwasanaethau Cyfreithiol |
| **Llofnod:** | R Jones |
| **Dyddiad** | 25 Mehefin 2021 |

# 4. Dewisiadau a Chynlluniau Wrth Gefn

### 4.1 Rolau a Chyfrifoldebau/Prosesu

- Bydd Axon yn darparu’r camerâu; byddant yn cael eu gosod gan yr adran Gwasanaethau Fflyd a bydd cofnod yn cael ei gadw gan yr heddlu o’r camerâu sydd wedi’u gosod mewn cerbydau. Bydd swyddogion o’r Uned Plismona’r Ffyrdd a’r Uned Ymateb Arfog yn sicrhau eu bod yn adrodd am ddifrod i offer cyn gynted â phosibl wrth y Tîm Prosiect a’r adran Gwasanaethau Fflyd. Bydd yr adran Gwasanaethau Fflyd yn newid camerâu sydd wedi torri neu eu difrodi a byddant yn cefnogi defnyddwyr mewn perthynas â materion sy’n ymwneud â’r system swyddfa gefn ac Evidence.com.

- Bydd y Tîm Prosiect yn gyswllt allweddol mewn perthynas ag ymholiadau sydd gan ddefnyddwyr mewn ynghylch y defnydd o gamerâu cerbyd. Bydd y Tîm Prosiect yn cefnogi Hyrwyddwyr â dysgu ychwanegol i’w galluogi i gefnogi eu cydweithwyr. Byddant yn darparu unrhyw gyflwyniadau a hyfforddiant allanol sy’n gysylltiedig â chamerâu cerbyd. Byddant yn darparu diweddariadau yn ôl yr angen mewn perthynas ag unrhyw newidiadau o ran deddfwriaethau, offer a pholisïau wrth iddynt godi.

- Bydd hyrwyddwyr yn gweithredu fel cymorth ar gyfer eu cydweithwyr mewn perthynas â chamerâu cerbyd. Bydd ganddynt ddealltwriaeth da o’r camerâu, y system swyddfa gefn a gweithdrefnau ategol i gynghori a chynorthwyo. Ni

fydd hyrwyddwyr yn gweithredu fel hyfforddwyr, ond gallant gynorthwyo â mân faterion ymarferol o ddydd i ddydd a chyfeirio at y pwyntiau cyswllt priodol. Bydd hyrwyddwyr yn ymgysylltu â'r Tîm Prosiect mewn perthynas ag unrhyw faterion.

- Bydd gan swyddogion CID, Ymgynghorwyr Cyn Cyhuddo ac Unedau Cymorth Ymchwilio fynediad at Evidence.com a byddant yn cael eu hyfforddi i ddefnyddio'r system, gan eu galluogi i wylio a rhannu'r darnau ffilm yn ôl yr angen.

- Mae'r adran gwasanaethau fflyd yn gyfrifol am gynnal a rheoli'r camerâu.

- Mae swyddogion yn gyfrifol am y defnydd cywir o'r camera yn unol â'r polisi a'r canllawiau; maent yn gyfrifol am olygu a rheoli'r delweddau maen nhw'n cipio'n gywir, ac os bydd ffeil achos yn cael ei gyflwyno, maent yn gyfrifol am rannu'r deunydd â'r Gwasanaeth Erlyn y Goron (GEG) perthnasol.

- Bydd rolau defnyddwyr Evidence.com fel a ganlyn:

    - Gweinyddwyr HDP
    - Defnyddwyr Camera HDP
    - Rheolwr Digwyddiadau'r Heddlu/Rheolwyr HDP
    - ASP HDP (Safonau Proffesiynol)
    - Uned Gwrthlygredd HDP
    - Y Cyd-uned Arfau Saethu

## COD MOESEG

### 4.2 Egwyddorion y Cod Moeseg

Mae camerâu cerbyd yn cipio sefyllfaoedd wrth iddynt ddigwydd, gan recordio fideo a sain yn y lleoliad, y swyddogion cysylltiedig, ac aelodau cysylltiedig o'r cyhoedd. Mae camerâu cerbyd yn sicrhau bod swyddogion yn ***atebol*** am eu gweithredoedd, eu penderfyniadau a'u hesgeulustod, ac mae'n sicrhau hefyd yr ymdrinnir â phob sefyllfa ac unigolyn â ***thegwch***, ***parch***, ***unplygrwydd*** a ***gonestrwydd*** gan fod modd defnyddio'r darnau ffilm sy'n cael eu recordio fel tystiolaeth. Mae swyddogion yn gyfrifol am sicrhau eu bod yn hysbysu unigolion yn gywir am recordiad camera cerbyd ac yn **agored** ac **onest** ynglŷn â'r defnydd o'r ddyfais hon a'r darnau ffilm.

Mae camerâu cerbyd yn sicrhau bod swyddogion bob amser yn ***cynnal*** eu hunain yn broffesiynol ac mewn modd sydd ddim yn dwyn anfri ar y gwasanaeth heddlu nac yn

tanseilio hyder y cyhoedd mewn plismona. Mae'n sicrhau bod swyddogion yn gweithredu â goddefgarwch a hunanreolaeth, ac yn trin aelodau o'r cyhoedd â ***chwrteisi*** a ***pharch***. Yn olaf, mae'n sicrhau bod pob swyddog yn trin pawb â chydraddoldeb ac amrywiaeth drwy fod yn ***deg*** a ***diduedd*** a thrwy sicrhau nad oes unrhyw wahaniaethu annheg neu anghyfreithlon yn digwydd.

Mae swyddogion yn gyfrifol am reoli eu darnau ffilm eu hun ar Evidence.com. Maent yn gyfrifol am gymryd ***perchnogaeth*** o'r darn ffilm ac ***arwain*** drwy enghraifft o ran ei reoli. Maent yn gyfrifol am sicrhau bod y darn ffilm yn cael ei gategoreiddio'n briodol.

Am ragor o wybodaeth ynglŷn â'r Cod Moeseg, gweler y ddogfen Cod Moeseg ar wefan y Coleg Plismona.

**TYSTYSGRIF GYDYMFFURFIO**

Mae'r polisi hwn wedi'i ddrafftio yn unol â'r Cod Moeseg ac wedi'i adolygu ar sail ei gynnwys a'r dystiolaeth ategol ac ystyrir ei fod yn cydymffurfio a'r Cod hwn a'r egwyddorion sy'n ei danategu.

| | |
|---|---|
| **Enw:** | Matthew Clark |
| **Adran:** | Newid Busnes TGCh |
| **Llofnod:** | M.D.Clark |
| **Dyddiad:** | 4 Mehefin 2021 |

# 5. Gweithredu ac Adolygu

Mae'n arfer da cael proses mewn grym sy'n sicrhau yr adolygir pob polisi a chanllaw'n ffurfiol yn rheolaidd, gan ystyried:

- Effeithiolrwydd y dogfennau
- Unrhyw newidiadau i ddeddfwriaethau / Canllawiau'r Swyddfa Gartref
- Heriau i'r polisi

- Unrhyw eitemau aneffeithlon mewn perthynas â'r gweithredu

Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu bob dwy flynedd heblaw bod angen ei adolygu cyn i ddwy flynedd fynd heibio.

Adolygir arferion ac egwyddorion y polisi yn erbyn gallu'r swyddog i ddefnyddio'r camerâu cerbyd a thrwy swyddogion ddim yn camddefnyddio camerâu cerbyd neu'r system. Gellir ymchwilio i'r defnydd priodol o'r camerâu cerbyd a'r system ac adrodd amdano drwy'r swyddogaeth archwilio o fewn y system. Mae swyddogion hefyd yn dilyn y gweithdrefnau cywir o'r polisi ar gyfer cael camera cerbyd a dychwelyd y ddyfais os yw'n cael ei golli neu ei dorri, neu maen nhw'n newid rolau.

Codir pob diweddariad neu bryder ynghylch camerâu cerbyd yn y Grŵp Prosiect Camerâu Cerbyd, a gynhelir unwaith y mis, a'r Grŵp Strategol TG, a gynhelir bob tri mis. Cyflwynir pob polisi a chanllaw, a dogfennau eraill perthnasol sy'n ymwneud â chamerâu cerbyd, i'r Grŵp Prosiect Camerâu Cerbyd i'w hadolygu gan bawb sy'n bresennol.

Pan fydd prosesau'n cael eu gweithredu, cynhelir proses adolygu er mwyn sefydlu effeithiolrwydd y broses a mesur unrhyw fanteision.

**Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000**

Yn unol â Rhan 19 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 mae'n ofynnol i'r Heddlu gyhoeddi ei holl bolisïau ar wefan yr Heddlu. Polisïau sy'n dangos pam yr ydym yn gwneud pethau a gweithdrefnau sy'n dangos sut yr ydym yn eu gwneud. Rhaid cynnal adolygiad o'r gweithdrefnau fesul achos er mwyn diogelu ystyriaethau'n ymwneud â gorfodi'r gyfraith ac iechyd a diogelwch. Os cynhyrchir dogfen sy'n cyfuno polisi a gweithdrefnau, mae'n ofynnol o dan y gyfraith i'r Heddlu gyhoeddi'r polisi ac asesu'r rhan sy'n ymwneud â'r gweithdrefnau i sicrhau na chaiff unrhyw wybodaeth sensitif ei chyhoeddi. Yn gyffredinol, fel sefyllfa ddiofyn, cynhyrchir polisi a dogfen weithdrefn ar wahân.

Mae'n ofynnol felly i adolygu'r ddogfen hon er mwyn cadarnhau ei bod yn addas i'w chyhoeddi. Noder isod p'un ai yw'r ddogfen yn addas i'w chyhoeddi yn ei chyfanrwydd ai peidio. Os credir y gallai datgelu fod yn niweidiol, disgrifiwch y niwed y byddai'r cyhoeddi'n ei achosi gan amlygu'r rhannau perthnasol yn y ddogfen. Os tybir y gallai datgelu fod yn niweidiol dylid anfon y ddogfen i'r Uned Rhyddid Gwybodaeth i'w hadolygu.

**Addasrwydd ar gyfer cyhoeddi**

| Addas i'w chyhoeddi | Ydyw/Nac ydyw | Dyddiad | Llofnod |
|---|---|---|---|
| Dogfen yn addas i'w chyhoeddi yn ei chyfanrwydd | Ydyw | 09.06.2021 | K.Wagstaff |
| Dogfen yn addas i'w chyhoeddi'n rhannol. Rwyf wedi amlygu'r rhannau y credaf nad ydynt yn addas i'w datgelu ac wedi disgrifio isod y niwed y byddai cyhoeddi yn ei achosi. | | | |
| **Niwed – mewn cyhoeddi** | | | |

**Adolygiad Rhyddid Gwybodaeth – i'w gwblhau gan yr Uned Ddatgelu**
(Dim ond os yw'r awdur yn credu bod niwed mewn cyhoeddi)

| Addas i'w chyhoeddi | Ydyw/Nac ydyw | Dyddiad | Penderfynwr Rhyddid Gwybodaeth |
|---|---|---|---|
| Dogfen yn addas i'w chyhoeddi yn ei chyfanrwydd | | | |
| Dogfen yn addas i'w cyhoeddi yn rhannol a gwnaed golygiadau perthnasol. Crëwyd fersiwn sy'n addas ar gyfer y cyhoedd. | | | |
| Ar ôl cwblhau'r adolygiad dylai'r penderfynwr Rhyddid Gwybodaeth ddychwelyd y ddogfen i awdur y polisi, ac ar ôl ei chymeradwyo a'i llofnodi, dylid ei chyhoeddi o fewn Cynllun Cyhoeddi'r Heddlu. Dylai unrhyw newidiadau pellach i'r ddogfen gael eu dwyn i sylw'r Uned Rhyddid Gwybodaeth, fel y bo'n addas. | | | |

## Rheoli Fersiynau

**Mae'r rhestr rheoli fersiynau isod yn ymwneud â dogfennau polisi blaenorol cyn diweddaru i'r ffurf polisi newydd. Mae'r holl wybodaeth o bolisïau blaenorol yn y dogfennau canllaw camerâu cerbyd.**

| Fersiwn | Dyddiad | Awdur | Rheswm Dros Newid |
|---|---|---|---|
| 0.1 | Chwefror 2019 | Mia Evans | Fersiwn gyntaf. |
| 0.2 | Mehefin 2019 | Georgia Roderick | Adrannau ychwanegol wedi'u hychwanegu gan Gwnstabl 1045 Alex Jones gweithrediadau arbenigol |
| 0.3 | Gorffennaf 2019 | Georgia Roderick | Drafft cyntaf wedi'i ddosbarthu ar gyfer ei adolygu i'r grŵp Prosiect Camerâu Cerbyd ar 22 Gorffennaf 2019. |
| 0.4 | Awst 2019 | Georgia Roderick | Fersiwn newydd gyda diwygiadau gan y grŵp Prosiect; diwygiwyd categorïau, diwygiwyd gorsafoedd dadlwytho. |
| 0.5 | Awst 2019 | Georgia Roderick | Ychwanegwyd adran ychwanegol o Reoliad 109, tudalen 5. |
| 0.6 | Medi 2019 | Jane Bartholomew | Diwygiadau gan y grŵp prosiect a Marc Jones. |
| 1.0 | 18 Medi 2019 | Catherine Davies | Adolygiad Terfynol a Chylchredeg<br>Gwnaed diwygiadau i Reolaeth Ôl-ddigwyddiad a Gweithredu Awtomatig |
| 1.1 | 20 Awst 2020 | Jane Bartholomew | Diwygiadau i'r rhestr gategorïau ar dudalen 23. Cynnydd o ran y cyfnod cadw Marwolaeth Sydyn i fodloni gofynion Crwneriaid, fel y cafodd ei drafod a'i gytuno gyda HDC. |